Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.12.2020

## Rheoliadau coronafeirws o 4 Rhagfyr 2020: cwestiynau cyffredin

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau mwy o wybodaeth am y rheoliadau coronafeirws fydd yn eu lle o 6:00pm ddydd Gwener 4 Rhagfyr 2020, gan gynnwys y cyfyngiadau ar deithio i rannau eraill o'r DU. Ewch i:

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-o-4-rhagfyr-cwestiynau-cyffredin

Yn gynharach heddiw mi wnaeth Llywodraeth Cymru ryddhau datganiad yn cyhoeddi y bydd rheoliadau teithio yng Nghymru yn cyfyngu ar deithio i ardaloedd yn Haen 3 yn Lloegr a Lefel 3 ac uwch yn yr Alban, ac ar deithio o'r ardaloedd hyn (mae Gogledd Iwerddon yn parhau o dan gyfyngiadau symud cenedlaethol). Gallwch weld y datganiad yma:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-4-cymru-1

## Grant Dewisol clo byr Hydref/Tachwedd yn cau yn fuan

Mae Cyngor Gwynedd yn annog busnesau yn y sir gafodd eu heffeithio'n sylweddol gan y clo byr yn Hydref a Thachwedd i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosib. Mae Grant Dewisol y Cyfyngiadau i fusnesau sydd ddim yn talu Trethi Busnes yn parhau ar agor, ond peidiwch ag oedi rhag cyflwyno eich cais gan bod disgwyl iddo gau yn fuan. Wrth ymgeisio, bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cam 3 yn cau 7 Rhagfyr 2020

Mae llai na wythnos ar ôl i wneud cais ar gyfer y Gronfa Lawrydd, bydd Cam 3 o'r gronfa yn cau am 5:00pm ddydd Llun 7 Rhagfyr 2020. Mae'r Gronfa bellach wedi ei ymestyn i gynnig cefnogaeth i weithwyr llawrydd yn y maes digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon. Os ydych eisoes wedi derbyn cymorth o'r Gronfa ni ddylid cyflwyno cais pellach ond fe allai Grant Dewisol y Clo Byr (wedi nodi uchod) fod o gymorth. I wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

## Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol y Nadolig hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Petai busnes am gael ei ychwanegu i'r rhestr ar y wefan yma, gellir cysylltu â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

# Cyflymu Cymru i Fusnesau: Gweminar/Gweithdy Gwerthu Ar-lein (E-Fasnach)

P'un a'ch bod yn newydd i werthu ar-lein neu'ch bod eisoes wedi dechrau gwneud hynny, cofrestrwch am ddim i gael y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnoch i werthu ar-lein. Dysgwch am gyfrinachau gwerthu ar-lein yng ngweminar E-fasnach newydd Cyflymu Cymru i Fusnesau ar 17 Rhagfyr 2020, o 2:00pm – 4:00pm. Mae ynddo fo y cyfan sydd angen i chi ei wybod, o ba lwyfan sydd orau i chi i sut mae gwneud talu'n fwy diogel. Am fwy o wybodaeth ac i gadw lle, ewch i:

https://bit.ly/33yqiAX

# Cynhadledd 'North Wales Means Business' 17 Rhagfyr 2020

Cynhelir Cynhadledd Flynyddol 'North Wales Means Business ' ar-lein ddydd Iau, 10 Rhagfyr 2020 rhwng 10:00pm a 3:00pm. Bydd nifer o siaradwyr ysbrydoledig a Sesiwn Holi ac Ateb gyda pherchnogion busnes sydd wedi mynychu rhaglen Twf Busnes 20Twenty, ynghyd ag ION leadership i glywed am y ffyrdd arloesol y maent wedi newid ac addasu eu busnesau a sut mae pethau'n edrych at y dyfodol. Bydd ystod eang o faterion a phynciau'n cael eu trafod, yn ogystal â mewnwelediad i arweinyddiaeth a syniadau busnes drwy gydol sesiwn y bore. Mae'r gynhadledd yn gyfle i ddathlu llwyddiannau'r cwmnïau a'r unigolion sydd wedi cymryd rhan ac arddangos yr effaith y mae rhaglenni Prifysgol Bangor wedi'i chael ar fusnesau ledled Gogledd Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ac i gofrestru ar gyfer y digwyddiad rhad ac am ddim hwn, ewch i:

https://bit.ly/33BI4Du

# RCS yn Gwneud Gwahaniaeth

Ymunwch â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar-lein RCS Ddydd Iau 10 Rhagfyr 2020, 10:00am – 11:30am, i gael gwybod sut mae sefydliad bach yng Ngogledd Cymru wedi creu gwerth effaith gymdeithasol o bron i £5m mewn blwyddyn. Byddant yn cyflwyno eu Hadroddiad Effaith diweddaraf yn dangos y gwahaniaeth maent wedi ei wneud yn 2019-20. Byddant hefyd yn son am eu rhaglen Hyrwyddwyr Llesiant yn y Gweithle, ac yn rhannu canlyniadau a

straeon o'u cynllun peilot IPS GALLAF Weithio. Bydd sefydliadau a busnesau cymwys o Gymry sy'n mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn derbyn copi am ddim o'r Cynllunydd Blwyddyn Llesiant 2021 (poster A2) gwych – tra bod stoc ar ôl! Cofrestrwch yma:

https://bit.ly/36BlmgQ

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru